**Cyfeirnod:** IR862

**Dyddiad cyhoeddi:** 14 Mawrth 2023

# Dogfennau TGCh


Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 02 Mawrth 2023 yn gofyn am wybodaeth ynghylch dogfennau TGCh.

I'w gwneud yn haws cyfeirio atynt, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn inc trwm, ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

**1. Dogfennau'r Adran TG 2023/24; - mae'r mathau hyn o ddogfennau'n cynnwys gwybodaeth fanwl am gynlluniau a strategaethau'r adran ar gyfer y dyfodol. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:**
**Cynllun/Strategaeth TGCh, Cynllun yr Adran TGCh, Cynllun Ariannol TGCh**

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

**2. Siart Trefniadaethol TGCh ;- gydag enwau a theitlau swyddi**



Rwy'n dal enwau'r staff TG yn ôl dan a40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan mai data personol deiliaid y rôl yw hwn ac y byddai ei ddatgelu'n torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 2018. Mae hwn yn esemptiad llwyr.

Wrth ddal yr wybodaeth hon yn ôl, rwyf wedi ystyried canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch datgelu data personol https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/2619056/s40-personal-information-section-40-regulation-13.pdf a'i chanllawiau ynghylch ceisiadau am wybodaeth am gyflogeion awdurdodau cyhoeddus https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section_40_requests_for_personal_data_about_employees.pdf. Rolau rheolaeth ganol neu iau yw'r rhain ac nid yw gwybodaeth am ddeiliaid y swyddi hyn ar gael yn gyhoeddus.

**3. Strategaeth Gaffael Gorfforaethol sy'n cwmpasu 2023/24 a mwy.**

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

Os ydych yn anfodlon ar y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Dylai ceisiadau am adolygiadau mewnol gael eu cyfeirio at Bennaeth y Gyfraith a Moeseg, trwy e-bost i cyfraith.moseg@archwilio.cymru neu drwy'r post i Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu i chi apelio wrth y Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar ôl ystyried a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, serch hynny, na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes bod y broses ar gyfer adolygiad mewnol wedi cael ei dihysbyddu. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth